GIG CYMRU
NHS WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Welsh Ambulance Services
NHS Trust




Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Gwasanaethau Meddygol Brys




Y Gwasanaethau Meddygol Brys yw

**Ambiwlansys**, a




cheir Ambiwlans, o'r enw

**Cerbydau Ymateb Cyflym.**



Mae staff ambiwlans yn gwisgo gwisgoedd gwyrdd.

Efallai y byddan nhw'n gwisgo cotiau melyn llachar hefyd .

Maen nhw'n cario bagiau mawr yn llawn o bethau a all helpu pobl .



Os byddwch chi'n ffonio 999 i gael Ambiwlans, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gofyn cwestiynau i chi i ddarganfod beth sy'n bod a pha mor ddifrifol yw'ch problem.



Rhoddir lliw, coch, ambr neu wyrdd i bob galwad 999, fel goleuadau traffig.

Mae'r lliwiau'n helpu'r gwasanaeth ambiwlans i wybod pa mor ddifrifol yw'ch problem, a pha mor gyflym i anfon help .



Mae galwadau **coch** yn argyfyngau sy'n **bygythu bywyd**. Mae bygwth bywyd yn golygu pan fydd rhywun yn sâl iawn a gallent farw os na chânt gymorth ar unwaith .



Galwadau **ambr** yw os yw'r broblem yn ddifrifol ond nid yw'n peryglu bywyd .



Nid yw galwadau **gwyrdd** yn peryglu bywyd ac nid ydynt yn ddifrifol .



Mae galwadau **coch** yn bethau fel

- Ddim yn anadlu
- Anymwybodol (ddim yn deffro)



Mae galwadau **ambr** yn bethau fel

- Poen yn y frest
- Wedi cwympo i lawr ac yn brifo'ch hun



Mae galwadau **gwyrdd** yn bethau tebyg

- Llosg bach
- Gwaedu trwyn



Mae'r lliw a roddir i'ch galwad yn dibynnu ar yr hyn sy'n bod ar y pryd a'r atebion a roddwch i'r cwestiynau ar y ffôn .


7 Important Checks

If you phone 999 you may need an ambulance.

If an ambulance comes to you, the ambulance staff should check 7 important things.

These checks will help the ambulance staff find out what is wrong and what help you will need.

Os ydych chi eisiau gwybod beth bydd y staff ambiwlans yn gwneud pryd maen nhw'n dod i'ch gweld chi, darllenwch y taflen

**7 Gwiriad Pwysig.**



# Sut oedd eich profiad gyda ni?



Mae dweud wrthym am eich profiadau a’ch straeon yn bwysig iawn

Rydym wir eisiau i bobl fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth gorau y gallant.



Gall eich straeon wneud gwahaniaeth i'r hyn a wnawn a gall helpu i wneud profiadau pobl eraill yn well.

Os hoffech roi adborth am Wasanaeth Ambiwlans Cymru, gallwch cysylltu trwy:




Ffôn: **0300 123 9207**




E-bost: **PECI.team@wales.nhs.uk**




Neu gallwch ymweld â'r adran **'Dweud Eich Dweud'** ar ein gwefan yn **www.ambulance.nhs.wales**